Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Deall a mynd i'r afael â stigma tlodi yn Abertawe

## Adroddiad dan arweiniad y gymuned ar gyfer cymunedau Abertawe








# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn pontio'r bwlch rhwng ymchwil a gwneud penderfyniadau drwy wneud tystiolaeth drylwyr ac arbenigedd yn hygyrch, yn berthnasol, ac yn ymarferol i lunwyr polisïau, ymarferwyr ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

Ein gweledigaeth: Cymru lle mae polisïau ac ymarfer cyhoeddus yn cael eu llunio'n gyson gan y dystiolaeth a'r wybodaeth orau sydd ar gael, gan arwain at wasanaethau cyhoeddus sy'n fwy effeithiol, cyfiawn ac ymatebol.

**Ein cenhadaeth**

- **ADNABOD.** Rydyn ni'n gweithio ar y cyd â'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol i'w helpu i adnabod eu heriau polisi mwyaf dyrys, ac yn llunio cyfleoedd ystyrlon er mwyn creu atebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

- **YMGYNNULL.** Rydyn ni'n dadansoddi ac yn cyfosod ymchwil o safon uchel mewn modd amserol, ac rydyn ni'n dwyn ynghyd arbenigwyr o'r DU ac yn fyd-eang i wella penderfyniadau polisi, a'r broses o'u rhoi ar waith.

- **DATBLYGU.** Rydyn ni'n ehangu gwybodaeth ym maes polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth drwy rannu'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu, gwerthuso effaith, a chyfrannu at gronfa wybodaeth gynyddol o'r hyn sy'n gweithio'n ymarferol.

Mae gwaith y Ganolfan yn canolbwyntio ar yr heriau polisi mwyaf sy'n wynebu llunwyr polisi yn lleol ac yn genedlaethol yng Nghymru. Mae dull y Ganolfan wedi'i seilio ar ymchwil academaidd sy'n arwain y sector, ar yr hyn sy'n pontio'r bwlch rhwng ymchwil a'r gwaith o lunio polisïau.

Mae'r Ganolfan yn aelod o Rwydwaith 'What Works' y DU a Rhwydwaith Ymgysylltu â Pholisi'r Prifysgolion (UPEN).

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: [www.wcpp.org.uk](http://www.wcpp.org.uk)

## Cyllidwyr Craidd


**Cafodd Prifysgol Caerdydd** ei sefydlu yn 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas lewyrchus, mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol, sy'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cryf wrth ddangos ei hymrwymiad i Gymru.

Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o UK Research and Innovation, sefydliad newydd sy'n dod â saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England ynghyd i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi ffynnu.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | **4** |
| **Cyflwyniad** | **5** |
| **Beth ydy stigma tlodi: yr hyn a ddywedodd cymunedau wrthym ni** | **6** |
| **Sut gall gwasanaethau wneud pethau'n waeth** | **11** |
| **Beth sy'n gweithio: datrysiadau cymunedol** | **12** |
| **Syniadau gweithwyr proffesiynol ar gyfer mynd i'r afael â stigma tlodi** | **13** |
| **Gweithredu: yr hyn y gall partneriaid Abertawe ei wneud** | **14** |




# Crynodeb

## *Beth yw stigma tlodi?*

Bydd stigma tlodi yn digwydd pan fydd pobl sy'n profi tlodi yn cael eu gwneud i deimlo cywilydd, eu beirniadu, eu trin yn wahanol, neu'n cael eu heithrio oherwydd nad oes ganddyn nhw ddigon o arian. Mae'r arolwg gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn dangos bod un o bob pedwar o bobl yng Nghymru wedi profi stigma tlodi 'trwy'r amser', 'yn aml' neu 'weithiau' yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn codi i un o bob tri ymysg aelwydydd sydd ag incwm blynyddol o dan £20,000 (2024).

## *Yr hyn a wnaethom*

Buom yn gweithio gydag ymchwilwyr cymunedol, sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi, i ddeall sefyllfa stigma tlodi yn Abertawe, a beth y gall gwasanaethau cyhoeddus ei wneud i'w leihau.

## *Ar gyfer pwy mae'r adroddiad hwn?*

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn ar gyfer cymunedau Abertawe, yn benodol y bobl a'r grwpiau a gymerodd ran yn yr ymchwil. Mae adroddiad cysylltiedig, sydd hefyd yn defnyddio tystiolaeth academaidd ryngwladol, wedi cael ei ddarparu i ymarferwyr a llunwyr polisïau.

## *Yr hyn a welsom yn Abertawe*

Mae'r ymchwil hwn yn dangos bod stigma tlodi yn effeithio ar fywyd bob dydd drwy systemau, mannau, a pherthnasoedd.

### *Yr hyn sydd angen digwydd:*

- Cyflogi pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi i weithio mewn gwasanaethau cymorth a gwasanaethau cyhoeddus
- Creu amgylcheddau cynnes a chroesawgar ym mhob adeilad cyhoeddus
- Lleihau'r angen i bobl ailadrodd eu straeon personol sawl gwaith
- Cefnogi datrysiadau sydd eisoes yn gweithio dan arweiniad y gymuned
- Trin pobl ag urddas a pharch wrth ryngweithio â nhw

# Cyflwyniad

Rhwng mis Chwefror a mis Mai 2025, fe wnaethom gynnal ymchwil yn Abertawe i ddeall sut mae stigma tlodi yn effeithio ar fywydau pobl, a nodi ymatebion ymarferol. Cafodd y gwaith hwn ei gyd-gynhyrchu dan arweiniad ymchwilwyr cymunedol sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi, ac mewn cydweithrediad ag ymchwilwyr annibynnol.

Fe wnaethom siarad â 46 o bobl ar draws saith grŵp cymunedol, yn ogystal â chynnal dau weithdy gyda gweithwyr proffesiynol o wasanaethau lleol.

Dyma'r pedwar prif gwestiwn roedd yr ymchwil yn canolbwyntio arnynt:

1. Ble a sut mae pobl yn profi stigma tlodi yn Abertawe?
2. Ym mha ffyrdd mae gwasanaethau cyhoeddus yn cyfrannu at stigma tlodi?
3. Pa effaith mae hyn yn ei chael ar unigolion, teuluoedd a chymunedau?
4. Pa gamau all atal a mynd i'r afael â stigma tlodi?






*Ein hymchwilwyr cymunedol - yn glocwedd o'r chwith: Karen Berrell, Michelle Hopkins, Melvyn Williams, Dr Tarh Martha Ako Mfortem*

# Beth ydy stigma tlodi: yr hyn a ddywedodd cymunedau wrthym ni




## *Profiadau cynnar sy'n para gydol oes*

Gall profi stigma tlodi yn ystod plentyndod gael effaith ar unigolion drwy gydol eu hoes. Dywedodd un cyfranogwr: *'Roeddwn i'n cael cinio ysgol am ddim. Cefais amser anodd am hynny i gyd...Ni oedd y plant tlawd yn yr ysgol.'*

Disgrifiodd rhiant arall sut roedd eu plentyn yn cael ei alw'n 'dlotyn' gan ei gyd-ddisgyblion, a hynny am ei bod yn gwisgo hen esgidiau gan nad oedden nhw fel teulu'n gallu fforddio cael rhai newydd iddi yn syth: 'Mae hyn yn dal i gael effaith arni hyd heddiw.'

Mae'r profiadau cynnar hyn o rywun yn gwneud i chi deimlo'n unig gan nad oes gennych chi lawer o arian yn gallu achosi niwed emosiynol parhaol. Gallant ddylanwadu ar sut mae unigolion yn gweld eu hunain ymhell i mewn i fywyd fel oedolion.

Disgrifiodd y cyfranogwyr sut y gall hyn greu cylch dieflig:



## *Pan fydd stigma tlodi yn effeithio ar eich meddwl*

Gall sylwadau a safbwyntiau gan eraill am fod yn dlawd ddechrau dylanwadu ar sut mae pobl yn gweld eu hunain. Eglurodd un cyfranogwr: *'Dydy stigma ddim yn effeithio arnaf fi – dydw i ddim yn poeni o gwbl nad oes gen i arian. Dim ots gen i o gwbl… Er hynny, pan ddaeth hi'n amser i mi wneud cais am Gredyd Cynhwysol, roeddwn yn bryderus ac yn poeni'n ofnadwy am y broses, ac am sut y byddwn yn delio â gorfod mynd i gyfarfod mewn swyddfa neu siarad â phobl dros y ffôn. Roedd yr holl beth yn peri pryder i mi, a dyma felly yw'r stigma sydd gen i am fod yn dlawd – rhywbeth nad oeddwn i hyd yn oed wedi meddwl amdano o'r blaen.'*

Mae hyn yn dangos sut y gall pobl wrthod stigma tlodi ar un lefel, gan barhau i'w fewnoli mewn ffyrdd sy'n creu pryder a straen, weithiau heb gydnabod y ffynhonnell.






## *Pwysau'r cyfryngau cymdeithasol a'r cyfryngau*

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn gallu creu pwysau cyson i gymharu ein ffordd o fyw. Fel y disgrifiodd un cyfranogwr: *'Mae rhai pobl yn dweud eu bod yn gwneud rhywbeth bob dydd… dwi'n teimlo'n ofnadwy os nad ydw i wedi gwneud dim byd.'*

Gall y Nadolig ddwysáu'r pwysau hwn: *'Pawb mewn pyjamas 'Dolig… pobl yn postio negeseuon ar-lein pan fydd dathliad pen-blwydd neu 'Dolig yn dod – mae Siôn Corn wedi bod ac mae'r 'stafell fyw yn llawn anrhegion'* – gan wneud i deuluoedd sydd methu fforddio pethau o'r fath deimlo'n ddrwg.

Gall cyfryngau traddodiadol hefyd gyfrannu at stigma drwy bortreadau negyddol o bobl sy'n byw mewn tlodi, gan atgyfnerthu'r stereoteipiau a'r tybiaethau niweidiol ynghylch pwy sy'n haeddu cymorth.

## Teuluoedd dan bwysau

Mae rhieni'n gweithio'n galed i amddiffyn eu plant rhag profi stigma tlodi, ond mae plant yn aml yn deall mwy nag y mae rhieni'n ei sylweddoli. Dywedodd un person ifanc: *'Mae byw yn waith caled... sy'n gwneud i chi deimlo'n druenus dros eich mam.'*

Bu rhieni yn disgrifio'r pethau maent yn fodlon eu gwneud dros eu plant: *'Byddai'n well gen i fwydo fy mhlentyn na bwydo fy hun... rydych chi'n gorfod byw heb ambell beth penodol i wneud yn siŵr eu bod nhw'n cael y pethau gorau posibl.'*

Mae plant yn darganfod ffyrdd o amddiffyn eu rhieni rhag teimlo'n euog. Pan nad ydynt yn gallu fforddio mynd ar dripiau ysgol, maent yn dweud: *'Mam, mae'n iawn. Dydw i ddim eisiau mynd beth bynnag.'* Ond fel y cydnabu un rhiant: *'Rwy'n gwybod ers tro ei bod hi eisiau mynd.'*





## Gall stigma tlodi wahanu a chreu rhaniadau rhwng pobl

Gall stigma greu gwahaniaethau ffug rhwng pobl mewn sefyllfaoedd tebyg.

Disgrifiodd un person y teimlad o gael ei farnu gan gymydog: *'Mae gen i ffrind sy'n byw mewn tŷ cyngor. Mae hi'n gweithio pum diwrnod yr wythnos. Rwy'n gweithio dau. Rwy'n dad amser llawn...barnwch fi, os hoffech chi. Rwy'n mwynhau bod gyda fy mhlant.'*

Disgrifiodd un cyfranogwr ei ymateb i ddefnyddiwr banc bwyd: *'Fe wnaeth menyw â char newydd sbon alw heibio'r banc bwyd. Felly dywedais i, 'Ylwch, os nad ydych chi'n rhoi stop ar hyn, dw i'n gadael.'*



## *Dim dewisiadau da*

Mae stigma tlodi yn digwydd hefyd pan fydd pobl yn cael eu beio a'u barnu am y dewisiadau maent yn cael eu gorfodi i'w gwneud oherwydd tlodi a'r systemau cysylltiedig. Mae systemau sydd â'r bwriad o helpu yn gallu cadw pobl yn gaeth, ac yna eu beio am wneud penderfyniadau rhesymegol o fewn y cyfyngiadau hynny. Dywedodd pobl wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu barnu am weithio'n rhan amser, ond y byddent yn cael llai o arian wrth weithio mwy o oriau.

Fel yr eglurodd un person ifanc: *'Dim ond 10 awr yr wythnos y gallwch chi weithio, ac os byddwch chi'n gweithio mwy na hynny, bydd eich budd-daliadau'n cael eu cymryd oddi arnoch chi'n llwyr… am bob £1 rydych chi'n ei hennill, mae 55c yn cael ei dynnu oddi ar eich budd-daliadau… felly mae hynny'n golygu ychydig bunnoedd i ffwrdd ar y diwedd'* – *sy'n gwneud i'r gwaith ychwanegol deimlo'n ddiwerth.*

Pan fydd pobl yn dewis cael budd-daliadau yn hytrach na gweithio, a fyddai'n eu gadael nhw'n waeth eu byd, maent yn cael eu beio am fod yn ddiog. Ond mae hyn yn anwybyddu'r ffaith nad yw'r system ei hun bob amser yn gweithredu mewn ffordd sy'n gwneud i waith dalu.

Clywsom am bobl mewn ôl-ddyledion gyda chymdeithasau tai a threth ystafell wely nad oedd yn cael symud i fyw i rywle llai nes eu bod nhw wedi talu eu dyledion: *'Mae ei hôl-ddyledion yn mynd i barhau i gronni oherwydd ei bod mewn tŷ tair ystafell wely ac un person yw hi… Mae hi'n sownd mewn twll diwaelod… Yn hytrach na'i symud o dŷ tair ystafell wely i fflat, ac yna gadael iddi dalu ei hôl-ddyledion.'*

Weithiau, mae pobl hyd yn oed yn cael eu barnu am fod eisiau dewis lle maen nhw'n byw ac yn gweithio – pethau mae pobl eraill yn eu cymryd yn ganiataol.

## Pan fydd systemau'n ei gwneud hi'n anodd cael cymorth

Gall ceisio cymorth gydag anghenion sylfaenol deimlo fel arwydd cyhoeddus o fethiant. Fel y disgrifiodd un person y profiad o fynd i fanc bwyd: *'Y tro cyntaf i mi fynd, roeddwn i'n teimlo'n fregus ac roedd gen i gywilydd...roedd fel petawn i wedi cerdded i mewn gyda baner. Mae bod yn hynod o dlawd yn cael effaith arna i.'*

Gall ffurflenni ac asesiadau cymhleth ddatblygu i fod yn fath o drallod: *'Rydych chi'n achosi trawma eto i'r unigolyn... gan ofyn iddyn nhw ddweud pethau dro ar ôl tro. Mae'n gwneud i chi deimlo'n llai o werth.'*

Gall y system fudd-daliadau wneud i bobl deimlo bod yn rhaid iddynt berfformio eu bod mewn angen, ar yr un pryd â theimlo eu bod yn cael eu beirniadu am fod angen cymorth. Dyma sut y disgrifiodd un person ifanc eu hasesiad: *'Roeddwn i'n teimlo fy mod i'n rhoi sioe ymlaen... roedd yn teimlo fel perfformiad, ac roedd gen i gywilydd.'*






## Sawl haen o driniaeth annheg

I rai pobl, mae'r profiadau hyn yn cael eu gwaethygu pan fydd problem ariannol yn cyfuno â heriau eraill – fel bod o wlad wahanol, bod ag anabledd, neu brofi hiliaeth.

Er enghraifft, rhoddir talebau teithio ar fysiau i geiswyr lloches y mae'n rhaid eu llenwi'n gywir. Mae'n hawdd gwneud camgymeriad. Dywedodd un fenyw wrthym ei bod wedi gwneud camgymeriad a bod y gyrrwr bws wedi ei chyhuddo o wneud hynny'n fwriadol. Roedd y teithwyr ar y bws wedi ei sarhau yn hiliol drwy ddweud nad yw hi'n talu trethi a'i bod wedi dod i'r wlad i gael pethau am ddim.

### *Mannau sy'n cynnwys neu'n eithrio*

Mae mannau neu leoedd ffisegol naill ai'n croesawu neu'n eithrio pobl ar sail eu sefyllfa ariannol.

Eglurodd un person sut mae'r un gweithgaredd yn cael ei drin yn wahanol iawn: *'Mae gennych chi ddigon o arian, ac rydych chi'n eistedd mewn gardd gwrw, neu'n eistedd gartref gyda glasiad o win coch bob nos...llefydd eithaf derbyniol i yfed alcohol. Os nad oes gennych chi'r arian i wneud pethau fel hyn, i ble rydych chi'n mynd? I'r parc gyda chan o Strongbow ar y penwythnos? Teimladau gwahanol iawn, iawn...'*

Gall amgylchedd ffisegol gwasanaethau hefyd anfon negeseuon am werth person. Mae sgriniau a swyddogion diogelwch mewn llefydd fel canolfannau gwaith yn gallu gwneud i bobl deimlo eu bod yn cael eu hystyried yn droseddwyr neu o bosibl yn dreisgar, yn hytrach na phobl sy'n chwilio am gymorth.

Mae costau teithio yn golygu bod *"£7 am docyn diwrnod [bws]"* yn cadw rhai pobl yn gaeth i rai ardaloedd, ac yn eu heithrio rhag eraill.

Gall busnesau eithrio pobl ar sail edrychiad: *'Cafodd y rhan fwyaf o'r bobl a oedd yn byw ar y stryd yn Abertawe eu hatal rhag mynd i Burger King a McDonald's... Roedd ganddo arian yn ei boced ond oherwydd eu bod yn gweld ei fod yn edrych rhyw ffordd arbennig.'*

Mae ble mae rhywun yn byw yn effeithio ar sut maent yn cael eu trin. Dywedodd rhai pobl ifanc eu bod yn cuddio eu codau post wrth wneud cais am swydd oherwydd eu bod yn poeni y byddai'n effeithio ar eu siawns o gael swydd.

## Sut gall gwasanaethau wneud pethau'n waeth

Yn hytrach na lleihau stigma tlodi, gall gwasanaethau cyhoeddus ei atgyfnerthu weithiau drwy wneud y canlynol:

- **Staff yn penderfynu pwy sy'n cael cymorth**, gyda gweithwyr rheng flaen yn rheoli mynediad ac yn penderfynu pwy sy'n gymwys i gael cymorth
- **Amrywiaeth yn ôl ardal,** gyda phobl yn dweud bod amseroedd ymateb ac ansawdd gwasanaeth yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw
- **Ailadrodd asesiadau ar draws gwahanol wasanaethau**, sy'n golygu bod yn rhaid i bobl ailadrodd eu profiadau sawl gwaith
- **Adeiladau digroeso**, gan gynnwys swyddogion diogelwch a nodweddion dylunio sy'n awgrymu nad yw pobl yn cael eu gwerthfawrogi

Nododd aelodau a gweithwyr proffesiynol broblemau tebyg a chynigiwyd atebion tebyg.

# Beth sy'n gweithio: datrysiadau cymunedol

## Banciau bwyd fel mannau cymunedol

Mae gweithredu fel 'siopau cymunedol', lle mae pobl yn gwneud rhoddion bach, yn ffordd o gadw urddas. Fel y dywedodd un person: *'Drwy ei alw'n siop yn hytrach na banc bwyd, fe sylweddolon ni y byddai mwy o bobl yn dod.'*





## Cyflogaeth gymunedol

Ystyriwyd bod Canolfan Phoenix, sy'n ganolfan gymunedol yng nghanol Townhill, yn effeithiol oherwydd bod *'pawb sy'n gweithio yma yn dod o'r ardal'* sy'n golygu bod gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y gymuned ar gyfer y gymuned yn cael gwared ar rwystrau ac yn meithrin ymddiriedaeth.

## Rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid

Mae cymorth anffurfiol yn aml yn gweithio'n well na gwasanaethau ffurfiol, gyda phobl yn dweud *'y byddai'n well ganddynt gysylltu â ni na chysylltu â'r gwasanaethau.'*



# Syniadau gweithwyr proffesiynol ar gyfer mynd i'r afael â stigma tlodi

Yn ystod dau weithdy, buom yn trafod stigma tlodi yn Abertawe gyda gweithwyr proffesiynol, a dyma oedd y dulliau a nodwyd ganddynt:

## Cynnwys pobl sydd â phrofiad

Mae gwasanaethau'n fwy effeithiol pan gânt eu darparu gan bobl sydd â phrofiad uniongyrchol, neu mewn partneriaeth â nhw. Dywedodd cymunedau: *'Yn hytrach na siarad â rhywun sydd wedi dysgu o lyfr, byddai'n well gen i siarad â rhywun sydd â phrofiad uniongyrchol fel fi.'*



## Credu pobl yn gyntaf

Mae dechrau o sefyllfa o ymddiriedaeth, yn hytrach nag amheuaeth gychwynnol, yn helpu pobl i deimlo eu bod yn cael eu parchu ac yn lleihau pryder.




## Galluedd a dewis

Mae defnyddio iaith sy'n cydnabod hawl, fel *'mae gennych hawl i gael y cymorth hwn'*, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn nad oes gan bobl, yn helpu i gynnal urddas.

## Amgylcheddau gwell

Mae cael gwared ar swyddogion diogelwch diangen, creu mannau croesawgar, a dod â gwasanaethau at ei gilydd, yn gallu lleihau stigma.




## Cefnogi staff

Mae llwythi gwaith trwm a phwysau i brosesu achosion yn gyflym yn atal staff rhag darparu cymorth parchus. Byddai gosod targedau realistig a chaniatáu amser ar gyfer sgyrsiau ystyrlon yn galluogi staff i drin pobl ag urddas.

# Gweithredu: yr hyn y gall partneriaid Abertawe ei wneud





### *Newidiadau ar unwaith*

- Cyflogi pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi mewn rolau rheng flaen ar draws gwasanaethau
- Cael gwared â swyddogion diogelwch o adeiladau gwasanaeth lle nad ydynt yn hanfodol ar gyfer diogelwch
- Creu mannau cynnes a chroesawgar ym mhob adeilad gwasanaeth
- Hyfforddi'r holl staff rheng flaen i ddechrau o sefyllfa o gred ac ymddiriedaeth, gan fabwysiadu dull o 'gredu pobl'
- Lleihau asesiadau ailadroddus drwy wella cydweithio a rhannu gwybodaeth
- Ehangu modelau cymunedol llwyddiannus, fel y Phoenix Centre
- Cyflwyno polisïau 'dim drws anghywir' fel bod pobl yn cael cymorth trwy unrhyw bwynt cyswllt cychwynnol




## Adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn gweithio

- Cefnogi datblygiadau arloesol presennol yn y gymuned, fel banciau bwyd sy'n gweithredu fel 'siopau cymunedol'
- Buddsoddi mewn mannau cymunedol sy'n dod â nifer o wasanaethau at ei gilydd
- Cydnabod ac ariannu rhwydweithiau cymorth anffurfiol gan gymheiriaid, er enghraifft rhwydweithiau cymorth anffurfiol Adferiad
- Dysgu o fodelau llwyddiannus lle mae cymunedau'n darparu gwasanaethau o fewn eu hardaloedd eu hunain



## Eiriolaeth a dylanwad

Er bod rhai newidiadau'n gofyn am weithredu ar lefelau eraill o lywodraeth, gall partneriaid Abertawe:

- Eirioli ar y cyd dros Brydau Ysgol Am Ddim i bawb, gan gynnwys ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, trafnidiaeth fforddiadwy a hygyrch, a diwygio Credyd Cynhwysol
- Casglu a rhannu tystiolaeth ar gyfer yr hyn sy'n gweithio er mwyn ei rhannu â llunwyr polisïau ac ardaloedd eraill
- Defnyddio pwerau presennol yn greadigol i leihau stigma tlodi o fewn y systemau presennol

**Awduron: Tamsin Ramasut and Clare Jenkins, Pont Collective**

**Ymchwilwyr cymunedol: Karen Berrell, Michelle Hopkins, Dr Tarh Martha Ako Mfortem, Melvyn Williams**

**Ar gyfer Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Chyngor Abertawe**

**Lluniau © Sukhy Hullait, a gomisiynwyd gan Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Mai 2026




# Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd
Sbarc | Spark
Heol Maendy
Caerdydd
CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk/cy
029 2087 5345
info@wcpp.org.uk
WCfPP

Economic and Social Research Council
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cardiff University Prifysgol Caerdydd